*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2024 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("y Ddeddf") ac maent yn diwygio'r Rheoliadau a ganlyn—

(a) Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1989 (Cy. 299)) ("y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth");

(b) Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/56 (Cy. 26)) ("y Rheoliadau Cynllunio Ardal");

(c) Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/198 (Cy. 46)) ("y Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad").

Mae rheoliadau 3 i 8 yn diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth i ehangu amcanion bwrdd partneriaeth rhanbarthol, cynyddu nifer yr aelodau ar y bwrdd a gwneud darpariaeth ar gyfer dosbarth newydd ar aelod o'r bwrdd (aelod sy'n sylwedydd annibynnol).

Maent hefyd yn gwneud diwygiadau er mwyn gwella trefniadau gweinyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol, gan gynnwys gofyniad i fwrdd gynnal hunanasesiadau cyfnodol o'i berfformiad, a chynyddu'r ystod o wybodaeth y mae rhaid ei chynnwys yn ei adroddiad blynyddol.

Mae rheoliad 8 yn diwygio Atodlen 1 i'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth fel bod rhaid arfer swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (mccc 1) yn unol â threfniadau partneriaeth.

Mae rheoliad 9 yn diwygio'r Rheoliadau Cynllunio Ardal i gynyddu'r gofynion ar gyfer monitro a gwerthuso'r cynnydd a wneir gan y cyrff partneriaeth wrth gyflawni gweithredoedd a nodwyd mewn cynllun a luniwyd o dan adran 14A o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 10 yn diwygio'r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad i newid y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyhoeddi adroddiadau ar sefydlogrwydd y farchnad yn y dyfodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2024 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym* *31 Rhagfyr 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 14A(7)(b), 144B(1), 166(1)(b) a (4)(a), a 168(2)(a), (c), (d) ac (e) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2024.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad" ("*the Market Stability*

(**1**) 2014 dccc 4 ("y Ddeddf"). Mewnosodwyd adran 14A gan baragraff 34 o Atodlen 4 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2). Mewnosodwyd adran 144B gan adran 56(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2).

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

*Reports Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Diwygio) a Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad) (Cymru) 2021(**1**);

ystyr "y Rheoliadau Cynllunio Ardal" ("*the Area Planning Regulations*") yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017(**2**);

ystyr "y Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth" ("*the Partnership Arrangements Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**3**).

# RHAN 2

## Diwygio'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth

**2.** Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau **3 i 8**.

**3.** Yn rheoliad 1(4) (dehongli), yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad" ("*market stability report*") yw'r adroddiad y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei lunio a'i gyhoeddi o dan adran 144B o'r Ddeddf;";

"ystyr "Corff Llais y Dinesydd" ("*the Citizen Voice Body*") yw Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sefydlwyd o dan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**4**);";

"ystyr "cynllun ardal" ("*area plan*") yw'r cynllun y mae'n ofynnol i gorff perthnasol ei lunio yn unol ag adran 14A(2) o'r Ddeddf;";

"ystyr "cynllun ardal ar y cyd" ("*joint area plan*") yw cynllun ardal sydd wedi ei lunio gan gorff perthnasol ar y cyd â chorff perthnasol arall yn unol â'r pwerau yn adran 14A(4) neu (5) o'r Ddeddf;";

"ystyr "cynllun cyflawni blynyddol" ("*annual delivery plan*") yw'r cynllun cyflawni blynyddol y mae rhaid i gorff perthnasol neu'r cyrff perthnasol ei lunio yn

---

(**1**) O.S. 2021/198 (Cy. 46).
(**2**) O.S. 2017/56 (Cy. 26).
(**3**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2017/491 (Cy. 103), 2018/48 (Cy. 15) a 2019/760 (Cy. 143).
(**4**) 2020 dsc 1.

unol â rheoliad 7(1) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017;".

**4.**—(1) Mae rheoliad 10 (amcanion y byrddau partneriaeth rhanbarthol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (a)—

(i) ar ddiwedd is-baragraff (i) hepgorer "a";

(ii) ar ddiwedd is-baragraff (ii) hepgorer yr hanner colon a mewnosoder—

",

(iii) ymateb i'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei lunio a'i gyhoeddi o dan adran 144B o'r Ddeddf,

(iv) rhoi sylw dyladwy i ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 16 o'r Ddeddf i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector wrth ymateb i adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, ac wrth weithredu cynllun ardal, neu gynllun ardal ar y cyd, a

(v) hyrwyddo datblygu trefniadau integredig o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;".

(3) Ar ddiwedd paragraff (c) hepgorer yr atalnod llawn a mewnosoder—

";

(d) monitro sut y mae awdurdod lleol yn arfer ei ddyletswydd o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**) mewn perthynas ag arfer y trefniadau partneriaeth;

(e) gweithio gyda Chorff Llais y Dinesydd i hyrwyddo ymglymiad pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr, yng ngwaith y trefniadau partneriaeth."

**5.**—(1) Mae rheoliad 11 (aelodaeth o fyrddau partneriaeth rhanbarthol) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddiwedd paragraff (1)(k) hepgorer yr atalnod llawn a mewnosoder—

";

(l) cynrychiolydd i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru(**2**);

---

(**1**) 2010 mccc 1.

(**2**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(m) o leiaf un person i gynrychioli buddiannau darparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(n) o leiaf un person i gynrychioli'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol(**1**) sy'n cynrychioli'r ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(1A) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol wahodd cynrychiolydd o Gorff Llais y Dinesydd i fod yn aelod sy'n sylwedydd annibynnol o'r bwrdd.

(1B) Caiff bwrdd partneriaeth rhanbarthol wahodd unrhyw bersonau eraill y mae'n meddwl eu bod yn briodol i fod yn aelodau sy'n sylwedyddion annibynnol o'r bwrdd.

(1C) O ran aelod sy'n sylwedydd annibynnol a benodir o dan baragraff (1A) neu (1B)—

(a) rhaid iddo gytuno i gael ei benodi i'r bwrdd i wasanaethu yn rhinwedd y swydd honno;

(b) caiff gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfod o'r bwrdd ond nid oes ganddo hawl i bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r bwrdd ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu yn y cyfarfod hwnnw;

(c) ni chaniateir iddo gael ei gyfrif mewn unrhyw gworwm ar gyfer cyfarfod o'r bwrdd."

(3) Ym mharagraff (4), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "gwasanaethau gofal sylfaenol" ("*primary care services*") yw'r gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yn unol â threfniadau a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn unol â Rhannau 4 i 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**);".

**6.** Ar ôl rheoliad 11 mewnosoder—

Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998 (O.S. 1998/678).

(**1**) Mae 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru (CGS); prif swyddogaeth CGS yw darparu cyngor a gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol ar wirfoddoli, ffynonellau cyllido, etc.

(**2**) 2006 p. 42.

"**Personau cyfrifol**

**11A.**—(1) Rhaid i bob corff partneriaeth benodi person cyfrifol i hwyluso'r trefniadau partneriaeth a hyrwyddo cydweithredu rhwng—

(a) y corff partneriaeth;

(b) pob un o'r cyrff partneriaeth eraill o fewn y trefniant partneriaeth;

(c) y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

(2) Rhaid i awdurdod lleol benodi'r person a benodir yn gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol o dan adran 144 o'r Ddeddf yn berson cyfrifol ar gyfer yr awdurdod.

(3) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol benodi'r aelod gweithredol a benodir yn aelod o'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol yn berson cyfrifol ar gyfer y Bwrdd.

(4) Rhaid i berson cyfrifol—

(a) annog cydweithredu a gwaith partneriaeth o fewn y corff partneriaeth;

(b) arwain o ran hyrwyddo cyfraniad y corff partneriaeth at gyflawni amcanion y bwrdd partneriaeth rhanbarthol;

(c) adrodd yn ôl i'r cabinet neu, yn ôl y digwydd, i fwrdd y corff partneriaeth a'i penododd ar waith y bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

**Swyddogaethau gweinyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol**

**11B.**—(1) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol gyhoeddi disgrifiadau o rôl a chyfrifoldebau'r categorïau o aelodau'r bwrdd a bennir yn rheoliad 11.

(2) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol sefydlu a chyhoeddi'r weithdrefn ar gyfer recriwtio aelodau o'r bwrdd sy'n cynrychioli buddiannau personau y cyfeirir atynt yn rheoliad 11(1)(g) ac (h).

(3) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol ddarparu cymorth ac arweiniad i gynorthwyo aelodau o'r bwrdd, yn enwedig yr aelodau hynny sy'n cynrychioli buddiannau personau y cyfeirir atynt yn rheoliad 11(1)(g) ac (h) ac i aelodau sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 11(1)(e).

**Hunanasesu**

**11C.**—(1) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol gyflawni hunanasesiad o'i berfformiad er mwyn gwerthuso i ba raddau y cyflawnodd yr amcanion a bennir yn rheoliad 10 ("ei amcanion") yn ystod y 12 mis blaenorol a llunio adroddiad ar ei gasgliadau.

(2) Yn y rheoliad hwn ac yn rheoliad 12 (adroddiadau), cyfeirir at hunanasesiad a gyflawnwyd ac adroddiad a luniwyd o dan baragraff (1) gyda'i gilydd fel "adroddiad hunanasesu".

(3) Rhaid i adroddiad hunanasesu hefyd gynnwys manylion unrhyw weithredoedd y mae'r bwrdd yn bwriadu ymgymryd â hwy, ac unrhyw weithredoedd y mae wedi ymgymryd â hwy eisoes, gyda'r nod o gynyddu'r graddau y bydd yn cyflawni ei amcanion yn y flwyddyn sy'n dilyn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid i adroddiad hunanasesu (heblaw adroddiad hunanasesu cyntaf bwrdd partneriaeth rhanbarthol) gynnwys asesiad y bwrdd o'r graddau yr effeithiwyd ar gasgliadau'r bwrdd, sydd wedi eu cynnwys mewn adolygiad a gyflawnwyd o dan baragraff (7), o ganlyniad i unrhyw weithredoedd y mae wedi ymgymryd â hwy i gyflawni ei amcanion yn y 12 mis blaenorol.

(5) Rhaid llunio'r adroddiad hunanasesu cyntaf erbyn 1 Ebrill 2025.

(6) Rhaid llunio adroddiadau hunanasesu dilynol fesul ysbaid o ddwy flynedd erbyn 1 Ebrill.

(7) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol gyflawni adolygiad o adroddiad hunanasesu.

(8) Yn y Rheoliadau hyn, cyfeirir at adolygiad a gyflawnwyd ac adroddiad a luniwyd yn unol â pharagraff (6) gyda'i gilydd fel "adolygiad".

(9) Rhaid i adolygiad o dan baragraff (7) gynnwys gwerthusiad o'r graddau y mae unrhyw weithredoedd gan y bwrdd, gan gynnwys gweithredoedd yr ymgymerwyd â hwy yn unol â pharagraff (3), wedi cynyddu'r graddau y cyflawnodd y bwrdd ei amcanion yn y 12 mis ers i'r adroddiad hunanasesu gael ei lunio.

(10) Rhaid cyflawni'r adolygiad cyntaf erbyn 1 Ebrill 2026.

(11) Rhaid llunio adolygiadau dilynol fesul ysbaid o ddwy flynedd erbyn 1 Ebrill.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

(12) Rhaid i fwrdd partneriaeth rhanbarthol gyhoeddi crynodeb o ganlyniadau adroddiad hunanasesu neu, yn ôl y digwydd, yr adolygiad a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliad hwn, mewn adroddiad a lunnir yn unol â rheoliad 12."

**7.** Yn rheoliad 12 (adroddiadau), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) O **1 Ebrill 2025—**

(a) rhaid i adroddiadau gynnwys—

(i) disgrifiad o ddiben, rôl, aelodaeth, strwythur gweithredu a blaenoriaethau allweddol y bwrdd,

(ii) gwybodaeth am sut y mae'r trefniadau partneriaeth wedi ymateb i'r asesiad o'r boblogaeth a'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad, ac i weithredu'r cynllun ardal neu, yn ôl y digwydd, y cynllun ardal ar y cyd,

(iii) manylion am sut y defnyddiwyd adnoddau (wrth ddarparu gwybodaeth yn unol â pharagraff (ii)),

(iv) gwybodaeth am y ffyrdd y mae'r bwrdd wedi cynorthwyo o ran integreiddio trefniadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol,

(v) gwybodaeth am sut y mae'r bwrdd wedi cynorthwyo o ran darparu gwasanaethau yn well er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl,

(vi) cyfrif o sut y mae'r bwrdd wedi ymgysylltu â dinasyddion (yn enwedig pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, gofalwyr, plant a phobl ifanc) yn ei waith,

(vii) cyfrif o sut y mae'r bwrdd wedi hyrwyddo ymglymiad dinasyddion yn ei waith, ac asesiad o'r effaith y mae hynny wedi ei chael ar wella canlyniadau llesiant ar gyfer pobl yn yr ardal a gwmpesir gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol,

(viii) gwybodaeth am unrhyw weithgarwch comisiynu ar y cyd a'r defnydd o gronfeydd cyfun yn y trefniadau partneriaeth,

(ix) gwybodaeth am sut y mae'r cyrff partneriaeth wedi ymgysylltu â mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n

cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau'r trydydd sector (o fewn ystyr adran 16(2) o'r Ddeddf) yn y trefniadau partneriaeth,

(x) gwybodaeth am flaenoriaethau'r bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf,

(xi) crynodeb o adroddiad hunanasesu neu adolygiad a gynhaliwyd yn unol â rheoliad 11C, a

(xii) canlyniadau adolygiad a gynhaliwyd yn unol â rheoliad 8(2) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017 (monitro a gwerthuso: adolygiad blynyddol);

(b) rhaid i bob corff partneriaeth gyhoeddi ar ei wefan adroddiad a luniwyd gan y bwrdd partneriaeth rhanbarthol o dan y rheoliad hwn."

**8.** Yn Atodlen 1, yn Nhabl 1 (swyddogaethau awdurdodau lleol), ar ôl eitem 9 mewnosoder—

"10. Swyddogaethau awdurdod lleol o dan adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[1].

[1] 2010 mccc 1."

# RHAN 3

## Diwygio'r Rheoliadau Cynllunio Ardal

**9.** Yn y Rheoliadau Cynllunio Ardal, yn lle rheoliad 7 rhodder—

"**Monitro a gwerthuso: cynllun cyflawni blynyddol**

**7.**—(1) Rhaid i gorff perthnasol neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol lunio a chyhoeddi cynllun cyflawni blynyddol sy'n pennu'r ffordd y bydd y gwasanaethau a'r gweithredoedd a nodir yn y cynllun ardal neu, yn ôl y digwydd, y cynllun ardal ar y cyd, yn cael eu cyflawni neu'r ffordd yr ymgymerir â hwy er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd yn yr adroddiad asesiad poblogaeth yn ystod y 12 mis nesaf gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddir y cynllun cyflawni blynyddol.

(2) Rhaid i'r cynllun cyflawni blynyddol cyntaf gael ei lunio a'i gyhoeddi gan gorff

perthnasol neu, yn ôl y digwydd, y cyrff perthnasol erbyn **1 Ebrill 2025**.

(3) Rhaid i bob corff perthnasol gyhoeddi ar ei wefan y cynllun cyflawni blynyddol a luniwyd gan y corff perthnasol neu, mewn achosion priodol, y cyrff perthnasol.

(4) Rhaid i gorff perthnasol neu, pan fo cynllun blynyddol ar y cyd wedi ei lunio, un o'r cyrff perthnasol gyflwyno i Weinidogion Cymru gopi o gynllun cyflawni blynyddol a luniwyd yn unol â'r rheoliad hwn.

**Monitro a gwerthuso: adolygiad blynyddol**

**8.**—(1) Rhaid i gorff perthnasol neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol gymryd camau priodol i fonitro a gwerthuso effaith cyflenwi'r gwasanaethau a'r gweithredoedd yr ymgymerir â hwy yn unol â'r cynllun ardal neu, mewn achosion priodol, y cynllun ardal ar y cyd.

(2) Rhaid i gorff perthnasol neu, yn achos cynllun ardal ar y cyd, y cyrff perthnasol gynnal adolygiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r cynllun ardal neu, yn ôl y digwydd, y cynllun ardal ar y cyd, o ganlyniad i'r gwasanaethau a ddarparwyd a'r gweithredoedd yr ymgymerwyd â hwy yn unol â'r cynllun cyflawni blynyddol ar gyfer y cyfnod 12 mis blaenorol.

(3) Rhaid i'r adolygiad blynyddol cyntaf gael ei gynnal gan gorff perthnasol neu, yn ôl y digwydd, y cyrff perthnasol, erbyn **1 Ebrill 2026**.

(4) Rhaid i gorff perthnasol neu, mewn achosion priodol, y cyrff perthnasol sicrhau bod canlyniadau adolygiad a gynhaliwyd yn unol â pharagraff (2) yn cael eu cynnwys fel rhan o'r adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol perthnasol yn unol â rheoliad 12 o'r rheoliadau trefniadau partneriaeth."

## RHAN 4

### Diwygio'r Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad

**10.** Yn y Rheoliadau Adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, yn rheoliad 4 (cyhoeddi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad)—

(a) ar ddiwedd paragraff (1) mewnosoder "(yr adroddiad cyntaf)";

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

(b) yn lle paragraff (2) rhodder—

"(2) Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi eu hail adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad erbyn 1 Medi 2027.

(3) Rhaid cyhoeddi adroddiadau dilynol ar sefydlogrwydd y farchnad fesul ysbaid nad yw'n fwy na phum mlynedd erbyn 1 Medi."

*Enw*
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad